



Coleg Catholig Dewi Sant

Datganiad o Anghenion
Dysgu Ychwanegol
2018-19



CYNNWYS

1. Dysgu ar gyfer pawb	2
2. Cymorth Dysgu Ychwanegol	2
3. Â phwy dylwn i gysylltu tasai gen i ddiddordeb dod i Goleg Catholig Dewi Sant?	3
4. Pa help ga' i cyn dod i'r Coleg?	4
5. A fydda i'n derbyn cymorth wrth wneud cais i'r Coleg ac yn ystod ymrestru?	4
6. Pontio	5
7. Darpariaeth cymorth dysgu	6
8. Beth sy'n digwydd yn ystod arholiadau ac asesiadau?	7
9. Cymorth bugeiliol	7
10. Mynediad	8
11. Beth fydd yn digwydd petawn i'n anhapus gyda'r lefel o gymorth yr ydw i'n ei derbyn?	8
12. Datganiad o Anghenion Dysgu Ychwanegol mewn fformatau eraill	8

1. DYSGU AR GYFER PAWB

Mae Coleg Catholig Dewi Sant yn gobeithio y bydd y canllawiau hyn yn ateb rhai o'r cwestiynau sydd gennych efallai am addysg myfyrwyr gydag anghenion dysgu ychwanegol¹. Mae anghenion myfyrwyr yn amrywio ac oherwydd hyn os dymunwch wneud cais i Goleg Dewi Sant, dylech gysylltu â'r Coleg cyn gynted â phosibl er mwyn trafod eich anghenion arbennig.

I drefnu trafodaeth gychwynol anffurfiol, cysylltwch â'r isod:

Canolfan Cymorth Dysgu
E-bost: LSCteam@stdavidscollege.ac.uk

2. CYMORTH DYSGU YCHWANEGOL

Efallai bydd angen cymorth dysgu ychwanegol arnoch chi oherwydd:

- Angen Dysgu Ychwanegol
- anabledd
- anghenion meddygol
- bod bylchau yn eich gwybodaeth neu'ch sgiliau oherwydd eich absenoldebau mynych o'r system addysg
- amgylchiadau teuluol anodd neu anawsterau emosiynol
- nad Saesneg na Chymraeg ydy'ch mamiaith
- eich bod yn tangyflawni yn y system addysg

¹ Gallai anghenion ychwanegol gynnwys anableddau dysgu, anableddau cyfathrebu, anhwylderau emosiynol ac ymddygiadol, anableddau corfforol ac anableddau datblygiadol.

3. Â PHWY YDW I'N CYSYLLTU OS OES DIDDORDEB GEN I DDOD I GOLEG DEWI SANT?

Gallwch ddod o hyd i'n prospectws a rhagor o wybodaeth fan hyn:

www.stdavidscollege.ac.uk

Gallwch hefyd fynychu ein Nosweithiau Agored. Cynhelir y nosweithiau hyn bob hydref dros ddwy noson o leiaf a bydd yn gyfle i chi edrych ar yr adeilad, darganfod mwy am y cyrsiau a thrafod anghenion cymorth posibl i unigolion. Ceir manylion ar ein gwefan.

Os dymunwch hynny, gallwch dalu ymweliad personol a dod efallai gyda rhiant, athro neu weithiwr cymdeithasol.

Mae pob ardal o'r Coleg yn hygyrch gyda lifftiau ymhob adeilad aml-lawr a ramp yn arwain at y brif dderbynfa a thri toiled hygyrch.

I drefnu ymweliad o'r fath, cysylltwch â'r isod:

Canolfan Cymorth Dysgu
E-bost: LSCteam@stdavidscollege.ac.uk

4. PA HELP A GA' I CYN DOD I'R COLEG?

Mae gan y coleg weithdrefn gadarn ar gyfer gwneud cais a derbyn, ac mae hyn yn cynnwys gwybodaeth helaeth ar-lein, dosbarthu llenyddiaeth y Coleg, ymweliadau gan staff y Coleg i ysgolion, ymweliadau i'r Coleg gan ddarpar fyfyrwyr a chyfweliadau. Mae hefyd system ar gyfer cyngor cyn-mynediad, ac ar gyfer sefydlu.

Mae cysylltu'n gynnar gyda'r Coleg yn ddefnyddiol iawn. Os byddwch angen cymorth ychwanegol oherwydd angen dysgu ychwanegol, bydd y Coleg yn eich helpu drwy asesu eich anghenion drwy'r adran manylion am Gymorth Meddygol/Dysgu sydd ar y ffurflen gais a thrwy drafodaethau dilynol. Yn y cyfamser, os byddwch angen cymorth yn ystod y weithdrefn dderbyn, fe wnaiff y Coleg ei orau glas i'w ddarparu.

Am ragor o fanylion, cysylltwch â:

Mr Alwyn Lloyd
Pennaeth Cynorthwyol
alloyd@stdavidscollege.ac.uk

5. A FYDDA I'N DERBYN CYMORTH AR WNEUD CAIS I'R COLEG AC YN YSTOD YMRESTRU?

Ar gyfer darpar ddysgwyr, mae nifer o gyfleoedd i drafod anghenion dysgu cyn cychwyn y flwyddyn academiaidd;

- Ar y ffurflen gais, gallwch roi gwybodaeth am unrhyw rwystr rhag dysgu yn yr adran am fanylion meddygol/cymorth. Cewch eich annog i ddatgelu, ac ni fydd hyn yn effeithio ar ganlyniad eich cais.
- Yn ystod y Cyfweliad Cyfarwyddo; os ydych wedi cwblhau'r manylion meddygol/cymorth gyda gwybodaeth berthnasol neu ddatgeliad ar lafar yn ystod y cyfweliad yna cewch eich gwahodd i gwrdd ag aelod o'r tîm cymorth dysgu lle gellir trafod eich anghenion

- Yn ystod y cyfnod Ymrestru, cewch gyfle arall i i drafod eich anghenion cymorth os nad ydych wedi gwneud hynny eisoes.

Mae canfod darpar ddysgwyr sydd â rhwystrau rhag dysgu cyn gynted â phosibl yn ystod y broses o wneud cais yn hanfodol fel gall rhai gyda rhwystrau ystyrllon ar gyfer anghenion cymorth gael eu nodi ac i'r adnoddau gael eu dyrannu yn unol â hynny.

Felly, nodir anghenion dysgu darpar ddysgwyr drwy:

- Ddatgeliadau ar y ffurflen gais
- Sesiynau Cyfarwyddyd ar Ddydd Sadwrn/Ymrestru
- Tystiolaeth unrhyw asesiad/ gwybodaeth feddygol sy'n berthnasol
- Cyfarfodydd pellach gyda Rheolwr Anghenion Dysgu Ychwanegol

Os nad oes tystiolaeth o unrhyw rwystr i ddysgu blaenorol cyn cychwyn yng Ngholeg Dewi Sant, gall dysgwyr cyfredol barhau i gael mynediad i ddarpariaeth cymorth dysgu ychwanegol drwy'r dulliau canlynol:

- Atgyfeiriadau gan diwtor ar gyfer cymorth a/neu asesiadau
- Pryderon tiwtoriaid bugeiliol, y tîm llesiant, athrawon ac aelodau eraill o'r staff
- Canlyniadau trefniadau asesu arholiad a gynhelir gan y Rheolwr Arholiadau
- Canlyniadau asesiadau allanol gohiriedig/i ddod
- Camau cyntaf y broses ddisgyblaethol

6. PONTIO

Mae'r Coleg yn cynorthwyo pontio effeithiol drwy'r dulliau canlynol:

- a) Pontio o'r ysgol i'r Coleg

Mae'r tîm derbyniadau yn hwyluso teithiau o gwmpas y Coleg ar gyfer darpar ddysgwyr. Cynhelir teithiau mwy hygyrch ar gyfer ymgeiswyr sy'n teimlo'n fwy cyfforddus mewn grwpiau llai ac yn ystod adegau tawelach. Mae pob taith yn ymweld â'r Ganolfan Cymorth i Ddysgwyr.

Ar gyfer darpar ddysgwyr sydd ag anghenion pontio amlwg a ganfuwyd mewn cyfweliadau cyfarwyddyd, gellir trefnu ymweliadau /cyfarfodydd gyda'r Rheolwr Anghenion Dysgu Ychwanegol, i leddfu unrhyw bryderon neu ofidiau sydd gan ddarpar ddysgwyr am gychwyn yn y Coleg.

- b) Pontio o'r Coleg i addysg uwch

Mae cyngor arbenigol ar gael gan y Rheolwr Anghenion Dysgu Ychwanegol ynglŷn â gwneud cais am Lwfans i Fyfirwyr Anabl (DSA).

- c) Pontio o'r Coleg i gyrchfannau eraill

Mae gan y Coleg Ymgynghorydd Gyrfaol a all gynorthwyo a chyfeirio dysgwyr at y gyrchfan briodol.

7. DARPARIAETH CYMORTH DYSGU

Er mwyn helpu myfirwyr i gynorthwyo myfirwyr gydag anghenion dysgu ychwanegol gael mynediad i raglenni astudio prif ffrwd, mae'r Coleg yn darparu:

- a) Tîm Cymorth Dysgwyr

Mae gennym Reolwr Anghenion Dysgu Ychwanegol a thîm bach o gynorthwywyr cymorth dysgu.

- b) Cyfleusterau

Mae'r Ganolfan Cymorth i Ddysgwyr yn ardal waith dawel sydd ar wahân i'r Ganolfan Adnoddau Dysgu ac yn llawn cyfarpar gyda:

- Gliniaduron Cyffwrdd
- Ipad
- Cyfrifiaduron gyda bysellfwrdd ergonomig
- Technoleg Gynorthwyol
- Chwyddwydrau Sgrîn

- c) Y Cymorth sydd ar gael

Mae yna amrediad eang o gymorth ar gael. Mae'r Tîm Cymorth i'r Dysgwyr yn cynnig pecynnau cymorth hyblyg unigol sy'n helpu i gefnogi dysgwyr gydag ystod o rwystrau rhag dysgu; rhai corfforol, addysgol, emosiynol ac ymddygiadol. Mae'r tîm yn cydweithio'n agos gyda'r athrawon, tiwtoriaid bugeiliol, y tîm diogelu ac asiantaethau allanol perthnasol i sicrhau cymorth cyffredinol effeithiol ar gyfer ein dysgwyr.

Mae'r enghreifftiau'n cynnwys:

- Cymorth Un-i-Un
- Ymyriadau holistaidd
- Astudio â chymorth wedi ei amserlennu
- Sesiynau cyfarwyddyd 'Galw i mewn'

- Hyfforddiant Sgiliau Craidd
- Tiwtorialau Technoleg Gynorthwyol
- Datrysiadau sgiliau astudio

Mae adnodd Technoleg Gynorthwyol ar bob cyfrifiadur yn y Coleg ac mae ar gael i bob myfyriwr i'w ddefnyddio. Bydd dysgwyr sydd wedi eu dynodi fel rhai â rhwystrau rhag dysgu yn cael eu hannog ac yn cael digonedd o gyfarwyddyd pa feddalwedd fyddai o fudd i'r unigolyn ar gyfer astudio personol ac mewn arholiadau ffurfiol.

Fodd bynnag, beth bynnag fo'ch anghenion ychwanegol, byddwn yn ceisio darparu'r staff a'r offer fydd ei angen arnoch i gwrdd â'ch anghenion.

8. BETH SY'N DIGWYDD YN YSTOD ARHOLIADAU AC ASESIADAU?

Gellir darparu Trefniadau Arholiadau os bydd tystiolaeth wedi ei gyflwyno sy'n cydymffurfio â chanllawiau'r Cyd-Gyngor Cymwysterau. Rhaid i drefniadau arholiad y dysgwr adlewyrchu eu dull arferol o weithio a rhoi cymaint o annibyniaeth â phosibl i'r dysgwr.

Yng Ngholeg Dewi Sant, bydd y Rheolwraig Arholiadau ac Aseidiadau yn cynnal y prawf Trefniadau Arholiad i ganfod tueddiadau dyslecsia.

Mae gan yr Adran Cymorth i Ddysgwyr hefyd gyswllt â Seicolegydd Addysg siartredig all gynnal aseidiadau diagnostig yn breifat gyda dysgwyr (ar gost personol).

Er mwyn trafod eich gofynion, yn cysylltwch â:

Mrs Philippa Marshall
Rheolwr Arholiadau ac Aseidiadau

pmarshall@stdavidscollege.ac.uk

9. CYMORTH BUGEILIOL

Caiff yr holl fyfyrwyr eu gosod gyda Thiwtor Bugeiliol, fydd yn darparu cefnogaeth i fyfyrwyr. Hefyd, mae aelod o'r Uwch Dîm Rheoli yn gyfrifol am y briff penodol o weithio gyda'r staff i gydlynu a goruchwylio'r gefnogaeth ar gyfer myfyrwyr ag anableddau.

10. HYGyrCHEDD

Mae pob ardal o'r Coleg yn gwbl hygyrch, gyda lifftiau ym mhob adeilad aml-lawr, ramp yn arwain i'r brif dderbynfa a thri toiled hygyrch.

11. BETH FYDD YN DIGWYDD OS NA FYDDAF YN HAPUS Â'R LEFEL O GYMORTH RWYF YN EI DDERBYN?

Ceir eglurhad o weithdrefn gwyno y Coleg yn Siarter y Myfyrwyr. Os oes gennych gŵyn, dylech yn gyntaf roi gwybod i'r Tiwtor Bugeiliol. Bydd y Coleg yn gwneud ei orau i ddatrys y broblem.

12. Y DATGANIAD O ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL MEWN FFORMATAU ERAILL

Os ydych yn awyddus i gael copi o Ddatganiad o Anghenion Dysgu Ychwanegol Coleg Dewi Sant yn un o'r fformatau canlynol:

- Print Bras
- Awdio

Yna cysylltwch â ni:

Derbynfa'r Coleg
Ar y ffôn: 029 2049 8555
Ar e-bost: enquiries@stdavidscollege.ac.uk

Neu drwy'r wefan

SYLWER

Mae'r datganiad hwn yn egluro beth ydy polisi'r Coleg wrth gefnogi pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol yng Ngholeg Catholig Dewi Sant. Pan benderfynir mai'r Coleg ydy'r lle mwyaf addas i'r myfyriwr astudio ynddo, mae'r Coleg yn dymuno ymateb yn bositif lle bo hynny'n bosibl, yn amodol bod cymorth addas ar gael ac yn unol â'n dyletswydd dan ein Gweithred Ymddiriedolaeth. Ni ddylid dehongli unrhyw ran o'r datganiad fel contract rhwng y myfyriwr a'r Coleg. Caiff pob cytundeb ei negodi'n unigol ar sail anghenion y myfyriwr. Nid yw'r datganiad hwn yn ceisio disodli na dyblygu'r wybodaeth sydd yn y prospectws ond mae'n darparu gwybodaeth ychwanegol penodol ar gyfer anghenion myfyrwyr gydag anabledau neu anghenion ychwanegol. Dylai, felly, gael ei ystyried ar y cyd â phrospectws y Coleg ar gyfer blwyddyn gwneud y cais.

Mae adran ar y ffurflen gais sy'n holi am fanylion unrhyw anghenion dysgu ychwanegol. Gofalwch, os gwelwch yn dda, eich bod yn llanw'r adran honno'n gyflawn a chywir.